# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYMALAU HEDDLU'R DREF 1847
## (ADRAN 21)

## CARNIFAL LLANDYSUL A PHONT-TYWELI 2025

---

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 er mwyn Atal Rhwystrau ayb.

Rhwng 13:30 a 14:15 ddydd Sadwrn 5 Gorffennaf 2025, oherwydd y digwyddiad uchod, bydd y rhannau o'r ffyrdd a adwaenir fel Stryd y Bont (B4624), Stryd y Gwynt (B4624), Stryd Lincoln (B4624), Stryd y Brenin (B4624), y Stryd Fawr (B4624), Lôn Letty (B4624), Stryd yr Eglwys (B4624) a'r UT25, Llandysul yn Sir Ceredigion, dan eu sang a gall fod rhwystrau arnynt.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO at bwrpas atal rhwystrau ar y cyfryw ffordd ar y cyfryw ddiwrnod y bydd yn rhaid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 4 a 5, bydd y rhannau hynny o'r ffyrdd a adwaenir fel Stryd y Bont (B4624), Stryd y Gwynt (B4624), Stryd Lincoln (B4624), Stryd y Brenin (B4624), y Stryd Fawr (B4624), Lôn Letty (B4624), Stryd yr Eglwys (B4624) a'r UT25, Llandysul yn Sir Ceredigion ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal rhwng 13:30 a 14:15 ddydd Sadwrn 5 Gorffennaf 2025. Bydd pob rhan o'r ffordd yn cael ei chau am gyfnod byr yn ei thro ac yn cael ei hail-agor wrth i'r parêd fynd rhagddo.

2. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 4 a 5, bydd oedi hir i gerbydau gan gynnwys beiciau pedal, am ddim mwy na 15 munud rhwng 13:30 a 14:15 ddydd Sadwrn 5 Gorffennaf 2025 ar y rhannau hynny o'r ffyrdd a adwaenir fel Lôn Letty (B4624) a Stryd yr Eglwys (B4624), Llandysul yn sir Ceredigion.

3. Y ffordd arall ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt i'r de-orllewin o'r darn ffordd a gaewyd yw teithio ar hyd Stryd Lewis i'r gyffordd â'r B4336. Trowch i'r dde i'r B4336 a theithiwch hyd at y gylchfan. Cymerwch yr ail droad oddi ar y gylchfan i'r A486 gan deithio i'r gylchfan nesaf. Cymerwch y trydydd troad oddi ar y gylchfan i'r B4624 gan barhau i Landysul hyd y pwynt i'r gogledd-ddwyrain o'r darn ffordd a gaewyd. Mae'r ffordd arall oddeutu 3.5 milltir.

   Cedwir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.

4. Ni fydd darpariaethau erthyglau 1 a 2 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yma wedi'u dangos gan arwyddion traffig a stiwardiaid dynodedig.

5. Ni fydd unrhyw beth yn erthyglau 1 a 2 o'r gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir yng nghyswllt y digwyddiadau sydd yn rheswm i'r gorchymyn hwn, nac unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy ddim mwy na Mil o Bunnau.

Dyddiad: 23 Mehefin 2024

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Penmorfa, Aberaeron